Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio gael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

14 Hydref 2022

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD o CYNGOR yn Dydd Iau, 20 Hydref 2022 am 10.30 am i drafod y materion canlynol:

1. **Cod Ymddygiad Cynghorydd Ann Bowen Morgan**

2. **Y Cynghorydd Ann Bowen Morgan i wneud Datganiad Derbyn Swydd ac Ymgymeriad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad**

3. **Ymddiheuriadau**

4. **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

5. **Materion Personol**

6. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2022 a 8 Gorffennaf 2022 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2022 (Tudalennau 5 - 32)**

7. **Apwyntio Aelodau i'r rolau canlynol:**

Enwebiadau i'w hystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Cyng Rhodri Evans Cyng Keith Henson
Apwyntio Aelod ychwanegol i'r cyd-Bwyllgor Corfforaethol – Pwyllgor Safonnau	Cyng Caryl Roberts
Apwyntio 2 Aelod i'r Panel Grantiau Trawsnewid Trefydd	Cyng Clive Davies Cyng Matthew Vaux

8. **Ystyried yr adroddiad ar Gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol ar Gyrff Llywodraethu Ysgolion a Bwrdd Rheoli UCD Ceredigion (Tudalennau 33 - 34)**

9. **Ystyried yr adroddiad ar awdurdodi gweithdrefn ar gyfer penderfynu ar gais i gofrestru tir fel Maes Pentref (Tudalennau 35 - 46)**

10. **I ystyried adroddiad ar recriwtio person Lleyg/Annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 47 - 56)**

11. **Ystyried adroddiad ar recriwtio Aelod Lleyg/Annibynnol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau (Tudalennau 57 - 66)**

12. **Ystyried adroddiad ar Ganllaw'r Cyfansoddiad a newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor (Tudalennau 67 - 336)**

13. **Ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Tudalennau 337 - 350)**

14. **Ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau (Tudalennau 351 - 412)**

15. **Ystyried adroddiad ar benodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro ar gyfer Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (Tudalennau 413 - 426)**

16. Nid yw'r adroddiad (Atodiad B) ar yr eitem uchod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 a 14 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

Atodiad B sy'n berthnasol i'r adroddiad uchod (EITHRIEDIG) (Tudalennau 427 - 428)

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor